# Siopa ar-lein

**Gall siopa ar-lein fod yn ffordd wych i chi gael yr hyn sydd ei angen arnoch yn gyflym, ac osgoi tyrfaoedd y stryd fawr, a'ch galluogi i siopa o gwmpas am y pris gorau.**

**Gallwch brynu bron iawn unrhyw beth y byddwch ei eisiau dros y rhyngrwyd, o nwyddau i ddillad.**

**Bydd y canllaw hwn yn dangos sut gallwch ddod i arfer prynu nwyddau hanfodol ar-lein, yn ogystal ag enghreifftiau o bethau eraill y gellir eu prynu wrth bwyso botwm.**

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Hanfodion siopa arlein
2. Siopa archfarchnad - cofrestru i siopa ar-lein, a gwneud y pryniant cyntaf
3. Siopau allweddol ar-lein

### Beth fydd ei angen arnoch i wneud pryniant ar-lein:

- Cysylltiad sefydlog â'r rhyngrwyd
- Cerdyn gredyd neu ddebyd
- Cyfeiriad e-bost

Ffordd dda i chi ddod i arfer â siopa ar-lein yw drwy brynu eich bwyd.


### Siopa bwyd ar-lein

I bobl sy'n cael anhawster i fynd i archfarchnadoedd, gall siopa bwyd ar-lein fod o gymorth mawr iddyn nhw.

Gallwch brynu bwyd ar-lein unwaith neu ailadrodd archebion fel eich siopa wythnosol.

Mae'r holl archfarchnadoedd blaenllaw yn y DU yn cynnig siopa ar-lein – edrychwch ar eu gwefannau i ganfod eich ffefryn (neu agosaf):

- **Asda** – asda.com
- **Morrisons** – morrisons.com
- **Ocado** – ocado.com
- **Sainsburys** – sainsburys.co.uk
- **Tesco** – tesco.co.uk
- **Iceland** – iceland.co.uk









## Siopa ar-lein parhad

Weithiau bydd dosbarthiadau wedi'u cyfyngu i radiws penodol o siop leol, felly bydd angen i chi edrych i weld a yw'r archfarchnad a ddewiswyd yn dosbarthu i'ch ardal. Gellir gwneud hyn drwy nodi eich gwybodaeth dosbarthu (gweler isod am wybodaeth bellach).

### Cofrestru ar wefan archfarchnad:

1. Cofrestru ar wefan archfarchnad: Chwiliwch am yr eicon porwr gwe a'i ddewis. Bydd y porwr yn agor ac yn arddangos hafan.
2. Dewiswch y bar cyfeiriad ar frig y dudalen.
3. Teipiwch eich hoff archfarchnad neu'r un sy'n lleol i chi cyn pwyso enter/return.
4. Dewiswch wefan yr archfarchnad o'r rhestr o ganlyniadau sy'n ymddangos.
5. Nesaf, bydd angen i chi ddewis 'sign in' ar frig y wefan.
6. Os nad ydych wedi creu cyfrif eto, bydd angen i chi ddewis 'register for an account'.
7. Yna gofynnir i chi nodi cyfeiriad e-bost a chreu cyfrinair yn ogystal â manylion personol eraill fel eich enw a'ch cyfeiriad.

Mae'n bwysig eich bod yn dewis cyfrinair sy'n hawdd i chi ei gofio, ond sy'n anodd i unrhyw un ei ddyfalu. I wneud hyn, ceisiwch greu cyfrinair cymharol hir, ac osgoi cynnwys manylion personol fel pen-blwyddi ac yn y blaen, a sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth o nodau bysellfwrdd – er enghraifft priflythyren, rhif a nod arbennig.

8. Ar ôl gwneud hyn, dewiswch 'Create account'. Efallai y bydd angen i chi ddilysu eich cyfeiriad e-bost. I wneud hyn byddwch yn derbyn neges e-bost i'r cyfrif rydych chi wedi cofrestru ag ef, a fydd yn cynnwys opsiwn i ddilysu'r cyfeiriad e-bost.
9. Ar ôl creu cyfrif, gallwch siopa bwyd ar-lein.

### Chwilio am eich eitemau rhestr siopa:

1. Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif siopa bob tro y byddwch am siopa o'r newydd.
2. Ar ôl mewngofnodi, bydd angen i chi ddewis amser a dyddiad ar gyfer eich dosbarthiad, ynghyd â'ch cyfeiriad dosbarthu. Mae'n rhaid i'r amser dosbarthu fod yn un pan fyddwch adref neu pan fydd ffrind / perthynas yn gallu derbyn y dosbarthiad.
3. Bydd bar chwilio sy'n eich galluogi i chwilio am eitemau penodol, e.e. wyau, bara, llaeth.
4. Ar ôl i chi ddewis eitem, gallwch ei hychwanegu i'w basged. Fel basged mewn archfarchnad go iawn, bydd hyn yn cadw eu heitemau nes y byddwch yn barod i dalu. Gallwch glicio ar eich basged unrhyw bryd i weld beth sydd eisoes ynddi. Mae'n bwysig nodi, os byddwch yn gadael tudalen gwe'r archfarchnad ar unrhyw bwynt, gallech golli beth sydd yn eich basged, felly ceisiwch wneud eich siopa mewn un eisteddiad os yn bosibl. Gallwch bob amser mewngofnodi eto i ychwanegu a dileu eitemau cyn y dyddiad dosbarthu, hyd yn oed os ydych wedi cwblhau eich trafodiad.
5. Dylech barhau i chwilio am eitemau ac ychwanegu pob un i'r fasged nes y bydd gennych bopeth sydd ei angen arnoch. Mae bob amser yn syniad da cadarnhau'r nifer o bob eitem!
6. Os nad yw'r eitem ar gael, gallai'r siop anfon eitem amgen. Byddant yn ceisio anfon eitemau tebyg, ond os nad ydych eisiau'r eitem honno, dewiswch 'no substitutes'. Fel arfer, os na fyddwch yn hoffi'r eitem amgen pan fydd yn cyrraedd, bydd cyfle i chi ei hanfon yn ôl a chael ad-daliad.
7. Ar ôl i chi ychwanegu'r holl eitemau y byddech yn eu hoffi, mae angen i chi ddewis 'checkout' i adolygu a chyflwyno eich archeb.
8. Nesaf, bydd angen i chi nodi eich manylion talu.
9. Ar ôl i'r manylion talu a'r cyfeiriad gael eu cadarnhau, dewiswch 'confirm'. Bydd hyn yn cloi'r amser dosbarthu/casglu a bydd yr eitemau'n cael eu prynu. Os ydych yn defnyddio bancio ar-lein efallai y bydd angen i chi dderbyn y taliad drwy eich ap bancio ar-lein i sicrhau diogelwch.
10. Efallai y byddwch yn derbyn neges e-bost neu destun i gadarnhau'r archeb. Mae bob amser yn syniad da cadarnhau'r manylion eto. Fel arfer gallwch ddiwygio neu ychwanegu eitemau eraill cyn y dyddiad dosbarthu drwy'r wefan.

Ar ôl i archeb gael ei gwneud, gallwch gadw'r eitemau ar gyfer siopa eto yn y dyfodol, fel na fydd angen i chi chwilio eto am wahanol bethau.

## Siopa ar-lein parhad

### Prynu eitemau eraill ar-lein

Mae bron pob siop ar-lein yn gweithio yn y dull hwn: ychwanegu eitemau i'r fasged, mynd i'r ddesg dalu ar-lein a chadarnhau'r wybodaeth dosbarth/manylion talu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd eraill, byddwch yn dewis eich eitemau cyn creu cyfrif (mae hyn yn aml yn ddewisol a gallwch brynu heb gofrestru/creu cyfrif) a symud i'r opsiynau dosbarthu.

Os gallwch ei enwi, gallwch ei brynu ar-lein. O ddillad i offer cegin ac offer garddio i lyfrau, gall siopa ar-lein fod yn ffordd wych i chi brynu rhywbeth a'i gael wedi'i ddosbarthu at eich drws, gan arbed amser ac weithiau, arian.

Teipiwch enw'r eitem rydych chi eisiau ei phrynu ym mar chwilio'r porwr gwe – er enghraifft, 'côt law/rain jacket' – a chlicio search neu bwyso enter/return ar eich bysellfwrdd.

Bydd y canlyniadau'n dangos ystod o wefannau i ddewis ohonyn nhw, o siopau adrannol penodol gyda siopau ar-lein fel John Lewis i wefannau mawr ar-lein ar gyfer siopa'n benodol, fel Amazon.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r opsiwn 'shopping' ar Google. Bydd clicio ar hyn yn rhoi rhestr i chi o'r eitemau sydd ar gael yn seiliedig ar adolygiadau a phrisiau cynnyrch. Er mwyn cadw pethau'n lleol, gallwch hefyd ofyn am ganlyniadau sydd ond ar gael mewn siopau yn agos i chi, drwy glicio ar 'Available nearby'.

Os bydd gennych frand penodol mewn golwg ar gyfer prynu ganddynt, yna'r opsiwn gorau yw mynd i wefan y cwmni neu roi cynnig ar wefan y manwerthwyr allweddol sy'n stocio'r brand.

Dyma rai safleoedd i chi roi cynnig arnynt nhw. Gallwch glicio ar y ddolen isod neu ei deipio ym mar chwilio eich porwr gwe:

**Amazon** – www.amazon.co.uk – 'siop gyffredinol' lle gallwch brynnu bron unrhyw beth

**Boots**-www.boots.com-lle gwych i brynu nwyddau ymolchi a meddyginiaeth heb bresgripsiwn

**John Lewis**-www.johnlewis.com-safle dda a gyfer dillad, nwyddau i'r cartref a thechnoleg

**Homebase** – www.homebase.co.uk– yma, gall eich dysgwr brynu offer DIY a garddio.

Unwaith eto, gallwch bori drwy'r gwefannau hyn ac, os byddwch yn canfod rhywbeth yr hoffech ei brynu, gallwch ei ychwanegu i'ch basged a thalu amdano ar-lein. Mae mor syml a hynny!

Fodd bynnag, dylech wirio bob amser eich bod yn defnyddio gwefan ddiogel. Os yw'n ddiogel, bydd cyfeiriad y wefan yn dechrau gyda 'https' a bydd yn cynnwys y symbol clo-clap yn y bar cyfeiriad 🔒.

### Dolenni i ddysgu pellach

Am ragor o ganllawiau defnyddiol ar ddod i arfer â'r rhyngrwyd, gallwch chi fynd i wefan BT drwy glicio'r ddolen isod neu deipio'r cyfeiriad yn y bar chwilio ar eich porwr: bt.com/seniorskills

Hefyd gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am ddelio â'r argyfwng costau byw drwy fynd i'r wefan hon: https://abilitynet.org.uk/factsheets/cost-living-crisis-helpful-digital-resources